# SPSF 2:
## Rôl unigol
(Cyrff Cyhoeddus)


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

# Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol

Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nodau llesiant
## Beth ydym yn anelu ato




# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
## Sut y byddwn yn cyflawni




Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adrannau 14, 22 (2) a 51 (1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27394
ISBN digidol 978 1 4734 5943 4

Darlun ar y blaen wedi'i gynllunio gan Freepik – www.freepik.com

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 2

Cyflawni datblygiad cynaliadwy ..... 2

Gosod amcanion llesiant ..... 2

Llinell Amser ar gyfer pennu amcanion a gofynion llesiant er mwyn adolygu a newid amcanion llesiant ..... 4

Cyfrifoldeb am amcanion llesiant ..... 5

Cyhoeddi amcanion llesiant a'r datganiad llesiant ..... 5

Bodloni amcanion llesiant ..... 6

Adrodd yn flynyddol - gan gymryd ymagwedd integredig ..... 7

Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (cyrff cyhoeddus) ..... 8

Adolygiadau gan y Comisiynydd ..... 8

Argymhellion gan y Comisiynydd, a'r ymateb gan y Corff Cyhoeddus ..... 9

Llinell Amser ar gyfer ymateb i'r argymhelliad ..... 11

Atodiad A Cymryd ymagwedd integredig tuag at ddyletswyddau eraill ..... 12

## Cyflwyniad

1. Diben y canllawiau hyn yw helpu sefydliadau i gydymffurfio â gofynion proses y Ddeddf fel y cyfeirir atynt yn SPSF 1 Canllawiau Craidd. Dylid cyfeirio at y canllawiau hyn yn y lle cyntaf.

**Crynodeb o ofynion ar gyfer Cyrff Cyhoeddus unigol a drafodir yn y canllaw hwn**

Mae'n rhaid i chi (wrth gyflawni datblygu cynaliadwy)

- ✓ Osod a chyhoeddi amcanion llesiant (adran 3(2)(a))
- ✓ Cymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion hynny (adran 3(2)(b))
- ✓ Cyhoeddi datganiad ynghylch yr amcanion llesiant (adran 7(1))
- ✓ Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd (adran 13(1) ac At.1)
- ✓ Cyhoeddi eich ymateb i argymhelliad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (adran 22(4))

## Cyflawni datblygiad cynaliadwy

2. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus[1] i gyflawni datblygu cynaliadwy[2]. Diffinnir Datblygu Cynaliadwy fel proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i hyn gael ei wneud drwy gymryd camau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy[3] fel bod y nodau llesiant[4] yn cael eu cyflawni. Ceir arweiniad pellach ar hyn yn SPSF1 Canllawiau Craidd.

## Gosod amcanion llesiant

3. Rhaid i gyrff cyhoeddus, pan fyddant yn cyflawni datblygu cynaliadwy, osod a chyhoeddi eu hamcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r amcanion llesiant gael eu cynllunio i wneud y gorau o gyfraniad y corff cyhoeddus i gyflawni pob un o'r amcanion llesiant.

**Sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl**

Bydd gan wahanol gyrff cyhoeddus fwy o adnoddau a gallu i gyfrannu at a chyflawni rhai neu bob un o'r nodau llesiant nag eraill. Ond mae'r ddyletswydd yn

[1] Oni nodir yn wahanol, mae cyrff cyhoeddus yn golygu y cyrff a restrir yn adran 6(1) y Ddeddf
[2] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/3/enacted
[3] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/5/enacted
[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/4/enacted


ymwneud â'r cyfraniad y gallai corff cyhoeddus ei wneud. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, drwy sicrhau bod ei gyfraniad y mwyaf posibl, mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus edrych ar yr hyn y gallai ei wneud wrth weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant a chymryd pob cam rhesymol i fodloni eu hamcanion llesiant.

Cyfeiriwch yn ôl at adran 5 SPSF 1.

4. Dylai nodi amcanion llesiant lifo o fod â darlun clir o'r cyfraniad y gallai'r corff cyhoeddus ei wneud at y saith nod llesiant, a gweledigaeth y cyrff cyhoeddus. Mynegir y weledigaeth hon yn aml mewn dogfen gorfforaethol sy'n egluro'n fanwl yr hyn y mae'r corff cyhoeddus yn dymuno ei gyflawni, a sut y bydd yn trefnu ei hun i gyflawni hynny. Mae'r rhain yn aml yn gynlluniau corfforaethol, strategaethau neu gynlluniau strategol sy'n nodi gweledigaeth ac amcanion y cyrff cyhoeddus.

5. Ni ddylai cyrff cyhoeddus drin y gofyniad i osod amcanion llesiant o dan y Ddeddf hon ar wahân i'r amcanion sy'n arwain ac yn llywio camau gweithredu a phenderfyniadau'r sefydliad. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae sefydliadau yn cyfleu eu hamcanion drwy gynllun corfforaethol neu ddogfen gorfforaethol debyg arall. O gofio bod gan bob corff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf drefniadau ar waith i fynegi eu gweledigaeth a'u hamcanion corfforaethol, y ffordd orau y bydd cyrff cyhoeddus yn dangos sut y maent yn cymhwyso'r ddyletswydd llesiant yw drwy ddull corfforaethol integredig sengl. Bydd hyn yn helpu i osgoi datblygu cynaliadwy yn cael ei drin fel elfen 'ychwanegol' ac yn dangos bod y corff cyhoeddus yn cyflawni datblygu cynaliadwy.

**Ffigur 1**




6. Mae'r Ddeddf yn rhoi hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus wrth bennu amcanion llesiant wneud hynny mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu rôl a'u swyddogaethau. Ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus, megis Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Gyngor Chwaraeon Cymru, sydd â

swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru gyfan, gellir gosod yr amcanion llesiant i gymhwyso yn genedlaethol. Ond gallai fod achosion pan fyddant yn dewis gosod amcanion llesiant sy'n berthnasol i ran benodol o Gymru, os, er enghraifft, y maent yn dymuno ymyrryd ar fater lleol pwysig. Mae swyddogaethau Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol neu Awdurdodau Tân ac Achub ar y llaw arall yn ymwneud â rhannau penodol o Gymru ac felly dylai eu hamcanion llesiant gael eu cyfyngu i'r ardaloedd hynny. Fel cyrff cyhoeddus sydd â rolau a swyddogaethau ledled Cymru, efallai y byddant yn penderfynu gosod amcanion sy'n ymwneud â rhan benodol o'r ardal y mae ganddynt bwerau drosti yn unig. Mae'r Ddeddf yn galluogi cyrff cyhoeddus i amrywio eu hamcanion llesiant fel hyn.

7. Mae SPSF 1 yn nodi cyfleoedd i sefydliadau ddwyn ynghyd y gofynion presennol ar gyfer cynlluniau neu amcanion llesiant fel rhan o'u amcanion llesiant.

8. Mae cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n darparu'r pum ffordd o weithio o ran datblygu cynaliadwy, yn egluro sut y mae'n rhaid i sefydliad nodi ei amcanion llesiant (gweler SPSF1 'Canllawiau craidd' am arweiniad pellach ar bob un o'r 5 ffordd o weithio) . Dim ond pan mae corff cyhoeddus yn gallu dangos ei fod wedi cymryd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn y lleoliad i ystyriaeth, gan gymryd camau tuag at a bodloni ei amcanion llesiant, y bydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Gallai cyrff cyhoeddus gymryd materion eraill i ystyriaeth wrth wneud eu penderfyniadau, ond er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth y 5 mater a restrir yn Adran 5 y Ddeddf.

9. Un o'r dulliau sylfaenol a hyrwyddir gan y Ddeddf yw newid mewn ffocws o enillion o ran allbwn gwasanaeth i gysylltiad cryfach rhwng gweithredoedd cyrff cyhoeddus a'r canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i seilio ar Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n annog canolbwyntio ar y gwahaniaeth a wneir, yn hytrach na dim ond y mewnbynnau a'r prosesau sydd gan sefydliad. Llwyddiant yng nghyd-destun y Ddeddf hon yw gweld camau cadarnhaol yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r amcanion llesiant trwy weithredu unigol neu ar y cyd.

## Llinell Amser ar gyfer pennu amcanion a gofynion llesiant er mwyn adolygu a newid amcanion llesiant

10. Rhaid i amcanion llesiant cyrff cyhoeddus, ac eithrio Gweinidogion Cymru, gael eu gosod a'u cyhoeddi **o fewn** blwyddyn ar ôl i'r Ddeddf gael ei dechrau (Gweler adran 9 y Ddeddf[5]). Bydd y set gyntaf o amcanion llesiant yn cael eu cytuno a'u cyhoeddi heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth, 2017 (a'u hadolygu bob blwyddyn (gweler paragraff 18). Ar ôl hyn, gallai cyrff cyhoeddus benderfynu eu bod eisiau newid un neu fwy o'u hamcanion llesiant. Nid oes dyddiad terfyn nac amser penodol pryd y dylai hyn ddigwydd.

11. Dylai unrhyw amcan llesiant newydd fod yn seiliedig ar y graddau y mae'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant ac yn gyson â'r pum ffordd

[5] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/9/enacted

o weithio a ddarperir gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan dynnu ar y dystiolaeth orau posibl. Gallai'r dystiolaeth ddod o wahanol ffynonellau a nodwyd gan y corff cyhoeddus. Ond fel lleiafswm mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol[6] a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ("y Comisiynydd") cyn pennu amcanion llesiant newydd.

## Cyfrifoldeb am amcanion llesiant

12. Er nad yw'r Ddeddf yn rhagnodi pwy ddylai bennu amcanion llesiant o fewn corff cyhoeddus, er mwyn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r amcanion llesiant, dylai'r rhai sy'n pennu amcanion fod â dealltwriaeth glir o rôl a swyddogaethau'r corff cyhoeddus yn ogystal â'i adnoddau a'i allu i'w cyflawni.

13. Mae arweinyddiaeth yn rhan hanfodol o'r newid a bydd cyfrifoldeb corfforaethol gan yr uwch arweinwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn anfon neges glir bod y Ddeddf yn helpu i roi ffurf ar yr hyn maent yn ei wneud. Mae'n arfer da i gyrff cyhoeddus ddangos tystiolaeth bod yr amcanion llesiant wedi eu cefnogi gan y Prif Weithredwr a/neu'r bwrdd, neu unrhyw awdurdod strategol perthnasol.

14. Mae amcanion llesiant effeithiol yn fwy tebygol o gael eu gosod os ydynt yn cael eu datblygu a'u cytuno gan swyddogion neu gynrychiolwyr sy'n chwarae rôl ganolog o fewn y corff cyhoeddus. Rydym o'r farn er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf y dylai cyrff cyhoeddus sicrhau bod eu hamcanion llesiant yn rhan o'u trefniadau cynllunio canolog, megis cynllun corfforaethol neu offeryn tebyg. Mae'n fwy tebygol ar y lefel hon fod meddwl gweithredol yn cael ei roi i sut mae buddion lluosog yn cael eu creu oherwydd bod y rhannau hyn o gorff cyhoeddus yn tueddu i weithio ar draws y sefydliad cyfan yn hytrach nag ar draws adrannau, isadrannau neu dimau penodol.

## Cyhoeddi amcanion llesiant a'r datganiad llesiant

15. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad[7] am eu hamcanion llesiant yr un pryd y maent yn cyhoeddi eu hamcanion llesiant. Er mwyn osgoi dyblygu, dylai'r ddau ofyniad gael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol (neu ddogfen debyg).

16. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r datganiad, a gyhoeddir pan mae amcanion llesiant corff cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi, esbonio:

- Pam y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried y bydd ei amcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant;
- Pam mae'r corff cyhoeddus yn ystyried bod ei amcanion llesiant wedi cael eu gosod yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gynnwys esboniad o sut y bydd yn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant. Mae'n rhaid i'r bobl hynny hefyd adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yng Nghymru, lle mae gan y corff

[6] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/23/enacted
[7] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/7/enacted

cyhoeddus swyddogaethau sy'n ymwneud â Chymru gyfan. Pan fydd swyddogaethau'r corff cyhoeddus yn ymwneud â dim ond rhan benodol o Gymru rhaid adlewyrchu amrywiaeth yr ardal honno (gweler SPSF 1);

- Y camau sydd i'w cymryd i fodloni'r amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy
- Sut y bydd pob corff cyhoeddus yn llywodraethu ei hun i gyflawni ei amcanion llesiant
- Sut y bydd pob corff cyhoeddus yn cadw'r camau y mae'n eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant o dan adolygiad;
- Sut y bydd pob corff cyhoeddus yn sicrhau bod adnoddau, gan gynnwys rhai ariannol, yn cael eu dyrannu yn flynyddol at y diben o gymryd camau i gyflawni ei amcanion
- Pryd y bydd pob corff cyhoeddus yn disgwyl cyflawni ei amcanion llesiant;
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall am eu hamcanion llesiant y maent yn ystyried sy'n berthnasol.

## Bodloni amcanion llesiant

17. Mae gofyn i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i fodloni'r amcanion llesiant maent yn eu gosod. Bydd terfyn bob amser ar faint o gyllid, pobl, amser ac asedau sydd ar gael i gymryd y camau angenrheidiol. Ond mae angen ystyried y ffactorau hyn drwy adolygu'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i gydbwyso gyda'r cyfraniad a wnaed gan yr amcanion llesiant.

### Adolygu amcanion llesiant yn flynyddol

18. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adolygu eu hamcanion llesiant bob blwyddyn fel rhan o'u trefniadau ar gyfer adrodd amdanynt [gweler adran 1.13 o SPSF 1 'Canllawiau Craidd']. Wrth wneud hynny, gallai cyrff cyhoeddus asesu a yw eu hamcanion llesiant yn briodol ai peidio, i'r graddau:

- y byddant yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant,
- bod cyrff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i'w bodloni, a'u;
- bod yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

19. Bydd pob corff cyhoeddus eisoes yn gyfarwydd â gwerthuso eu hamcanion yn rheolaidd yn ôl arfer gorau fel rhan o'r cylch gwaith naturiol. Dros amser bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus gronni tystiolaeth a dulliau sy'n eu galluogi i wneud asesiad clir ynghylch a yw eu hamcanion llesiant yn addas i'r diben, gan gynnwys a yw'r camau a gymerwyd wedi bod yn rhesymol, yng nghyd-destun y Ddeddf. Gallai hyn dynnu ar wybodaeth o’r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, dangosyddion cenedlaethol neu natur y cynnydd yn erbyn y nodau llesiant a

fydd yn dod i'r amlwg drwy'r cerrig milltir cenedlaethol (pan osodir hwy gan Weinidogion Cymru). Gallai gwaith y Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru dynnu allan enghreifftiau o arfer da o'r hyn sy'n gweithio yng nghyd-destun y ddyletswydd llesiant i gynorthwyo cyrff cyhoeddus.

20. Pe bai cyrff cyhoeddus ganfod o'r adolygiad nad yw un neu fwy o'u hamcanion llesiant yn briodol mwyach, wrth sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r amcanion llesiant, yna rhaid iddynt eu newid; gan gyhoeddi amcan neu amcanion llesiant newydd cyn gynted ag y bo modd. Yn yr un modd, os yw corff cyhoeddus yn canfod nad yw ei amcanion llesiant bellach yn briodol, rhaid iddynt gael eu hadolygu cyn gynted ag y bo modd. Gallai hyn ddigwydd ar unrhyw adeg, felly os yw corff cyhoeddus yn canfod yng nghanol blwyddyn nad yw amcan llesiant yn briodol, yna mae'n rhaid iddo ei newid.

21. Mae'n rhaid i unrhyw ddiwygiad i amcan llesiant gynnwys esboniad o'r hyn sydd wedi newid a pham bod y newid hwnnw wedi digwydd. I lywio'r broses ddiwygio ac fel ar gyfer y trefniadau ar gyfer gosod amcanion llesiant i ddechrau, rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd i ystyriaeth.

22. Nid ydym yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ddibynnu'n llwyr ar Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a hyd nes y caiff y cyntaf ei gynhyrchu bydd angen iddynt bwyso ar dystiolaeth arall i osod amcanion llesiant effeithiol. Ar gyfer rhai amcanion gallai hyn fod yn angenrheidiol beth bynnag gan nad ydym yn disgwyl i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol adlewyrchu pob mater ar sail barhaus. Ond bydd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn arf gwerthfawr i gyrff cyhoeddus ddeall sut y gallant ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol orau ac ystyried y tymor hir. Unwaith y bydd ar gael, pwyso arno yw'r weithred leiaf a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus.

23. O bryd i’w gilydd gallai’r nodau llesiant gael eu newid. Dim ond o ganlyniad i ddiwygiad i’r Ddeddf a fyddai felly yn ddarostyngedig i graffu o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru y gallai hyn ddigwydd. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd newidiadau posibl o’r fath yn y dyfodol yn rhai prin. Ond, os bydd hyn yn digwydd, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adolygu eu hamcanion llesiant fel eu bod yn gyson ac yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni’r nodau llesiant.

## Adrodd yn flynyddol - gan gymryd ymagwedd integredig

24. Mae tryloywder yn hanfodol ar gyfer gwella sut mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu gwaith a sut y maent yn perfformio. Mae'n hanfodol bod y cyhoedd, y rhai sydd â chyfrifoldeb am ddarparu atebolrwydd am y Ddeddf, a'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cael gafael ar wybodaeth amserol a pherthnasol yn hawdd i gefnogi gwelliant parhaus.

25. Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus adrodd ar y cynnydd[8] a wnaed ganddo i gyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid i adroddiadau blynyddol gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd, ond yn ddim hwyrach na 31 Mawrth. Wrth baratoi'r adroddiad rhaid i gyrff cyhoeddus adolygu eu hamcanion llesiant. Mae'r broses ar gyfer hyn wedi ei nodi'n

[8] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/13/enacted

gynharach yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer eu diwygio y mae'n rhaid iddynt gael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

26. Nid yw'r Ddeddf yn nodi strwythur a chynnwys ar gyfer adroddiadau blynyddol, ond yn debyg i adolygu amcanion llesiant, bydd angen i gyrff cyhoeddus ddangos:

- bod eu hamcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant;
- eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i fodloni eu hamcanion llesiant; a
- bod eu hamcanion lles yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

27. I adlewyrchu'r broses o osod amcanion llesiant, dylai'r trefniadau adrodd fod yn ganolog i brif weithgareddau'r corff cyhoeddus. Nid ydym yn disgwyl i'r adroddiad fod yn ddogfen neu ddarn o waith ychwanegol, megis cofnod o berfformiad ei stad, ond yn hytrach yn brif ddull ar gyfer cyfleu gwybodaeth am berfformiad. Mae adrodd o'r math hwn yn fwy tebygol o fenthyg ei hun i integreiddio gwahanol fathau o adrodd ac asesu. Gallai hefyd ei gwneud yn haws i gynhyrchu mwy o ddiweddariadau 'byw' o gynnydd drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael yr effaith a'r defnydd mwyaf o'r wybodaeth honno.

28. Dylai adrodd geisio ymdrin â'r budd materol y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud at gyflawni nodau llesiant. Bydd angen i hyn wneud asesiad mwy cynhwysfawr ac ansoddol er mwyn adlewyrchu'r disgrifiadau a ddarperir o dan y nodau llesiant.

29. Mae cyrff cyhoeddus yn cael eu hannog i chwilio am gyfleoedd i ddod â threfniadau adrodd presennol at ei gilydd mewn dull mwy integredig fel rhan o'r Ddeddf.

## Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (cyrff cyhoeddus)

30. Dyletswydd gyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), yn benodol gweithredu fel gwarcheidwad i allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion, ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau y maent yn ei wneud. I wneud hyn mae'r Comisiynydd yn gallu monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu bodloni. Mae manylion am sut y bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w gweld yn SPSF3.

31. Gallai'r Comisiynydd hefyd roi cyngor neu gymorth i gorff cyhoeddus, annog arfer gorau, hybu ymwybyddiaeth ac annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a phersonau eraill os gallai hyn eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant.

## Adolygiadau gan y Comisiynydd

32. Mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal adolygiad i'r graddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion

drwy roi ystyriaeth i effaith hirdymor cyflawni datblygu cynaliadwy. Gallai'r Comisiynydd adolygu:-

- Y camau y mae'r corff cyhoeddus wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i fodloni eu hamcanion llesiant;
- Y graddau y mae corff cyhoeddus yn cyflawni ei amcanion llesiant;
- A yw corff wedi gosod a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

33. Bydd angen i gyrff cyhoeddus fod yn ymwybodol o allu'r Comisiynydd i gynnal adolygiadau. Bydd y Comisiynydd hefyd yn rhoi sylw i unrhyw archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan eu dyletswydd benodol, fel y mae'n berthnasol i waith y corff neu'r cyrff cyhoeddus dan arolwg.

34. Gallai'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ddarparu gwybodaeth y mae'r Comisiynydd yn ystyried sy'n berthnasol i'r adolygiad. Nid yw'n ofynnol i gorff cyhoeddus roi gwybodaeth i'r Comisiynydd os bydd y corff yn cael ei wahardd rhag ei rhoi oherwydd deddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol arall.

35. Mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal adolygiadau o ddau neu fwy o gyrff cyhoeddus hefyd. Yn yr achosion hyn, bydd cyrff cyhoeddus yn gallu dangos tystiolaeth o ffyrdd cydweithredol o weithio ac yn benodol pa drefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith i ddangos gwaith a wnaed i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir yn y meysydd a gwmpesir gan eich sefydliad.

36. Bwriedir i'r adolygiadau hyn roi mewnwelediad i'r Comisiynydd a helpu'r corff cyhoeddus wella'r ffordd y maent yn edrych ar yr effaith tymor hir a chyfrannu at y nodau llesiant. I'r perwyl hwn, dylent helpu cyrff cyhoeddus i nodi meysydd ar gyfer gwella er mwyn eu galluogi i wneud y cyfraniad mwyaf tuag at gyrraedd y nodau llesiant yn well.

37. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad o adolygiad ac anfon copi ohono at Weinidogion Cymru.

## Argymhellion gan y Comisiynydd, a'r ymateb gan y Corff Cyhoeddus

38. Wrth gynnal adolygiadau gallai'r Comisiynydd hefyd wneud argymhellion o dan adran 20(4) y Ddeddf[9] i gyrff cyhoeddus penodedig, ar ddau faes allweddol. Maent fel a ganlyn:

a) Sut i osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w bodloni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
b) Y camau mae'r corff wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

[9] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/20/enacted

39. Mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu ar natur yr argymhellion y maent yn eu gwneud i gyrff cyhoeddus, yn seiliedig ar ganlyniadau eu hadolygiad.

40. Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i ddilyn y cwrs gweithredu a nodir yn yr argymhelliad gan y Comisiynydd. Dylai eu hymateb i'r argymhelliad gynnwys y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu'r camau y bydd yn eu cymryd ar y cyd ag eraill os yw'r adolygiad yn cwmpasu dau neu ragor o gyrff.

41. Gallai cyrff cyhoeddus ystyried sut y byddai'r camau gweithredu yn cymryd eu lle o fewn unrhyw adolygiadau parhaus neu arfaethedig o brosesau corfforaethol neu feysydd polisi os yw'r argymhellion yn canolbwyntio ar y materion hyn. Byddai hyn yn helpu i ymgorffori camau gweithredu, yn hytrach nag ystyried gweithredu fel elfen 'ychwanegol'. Anogir cyswllt gyda'r Comisiynydd ynghylch y ffordd orau o roi argymhellion ar waith. [10].

42. Gallai cyrff cyhoeddus:

- wrthod yr argymhelliad/ion, neu ran ohono/ohonynt, ar sail bod 'rheswm da' dros beidio â gwneud hynny;
- gwrthod yr argymhelliad/ion oherwydd ei fod yn penderfynu ar ffordd arall o weithredu.

43. Cyfrifoldeb cyrff cyhoeddus fydd penderfynu ar y rheswm da dros beidio â dilyn argymhelliad. Egluro pam fod hyn yn digwydd i'r Comisiynydd drwy gyhoeddi eich ymateb.

44. Pan benderfynir ar gwrs gweithredu arall, dylai cyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud y penderfyniad hwnnw

45. Rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi eu hymateb i argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd o dan y Ddeddf.

46. Bydd sut mae cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi eu hymateb yn ôl disgresiwn y corff cyhoeddus. . Ond yn ysbryd tryloywder a hygyrchedd mae cyrff cyhoeddus yn cael eu hannog i wneud hyn yn amlwg ar eu gwefan neu sianel gyfathrebu gyfwerth. Dylai trefniadau gael eu rhoi ar waith hefyd i unigolion nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau ar-lein weld yr ymateb.

47. Byddem yn annog i unrhyw ymateb gan gorff cyhoeddus nodi:

- pa gamau a gymerir yn gyson ag argymhelliad y Comisiynydd;
- pwy fydd yn cymryd y camau hynny;
- pam ei fod yn cymryd y camau hynny;
- pryd y bydd y camau hynny'n cael eu cymryd;
- sut fyddwn ni'n gwybod pan fydd y camau wedi eu cymryd;
- pwy fydd yn cael ei effeithio gan y camau hynny;

48. Yn unol ag adran 5(2)(c) y Ddeddf, bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus penodol benderfynu sut y maent yn bwriadu cynnwys y rhai sydd â budd, neu a allai gael eu heffeithio gan yr amcan(ion) lles mewn unrhyw gamau sy'n dilyn.

---

10 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/22/enacted

## Llinell Amser ar gyfer ymateb i'r argymhelliad

49. Byddem yn annog y corff i gyhoeddi ei ymateb o fewn 25 diwrnod gwaith o ddyddiad argymhelliad y Comisiynydd. Gallai hyn fod yn ateb sy'n golygu gohirio unrhyw gamau pellach os oes ar y corff cyhoeddus angen amser i ystyried yr argymhelliad, ond dylai ymateb llawn gael ei ddarparu ynghylch pa gamau, os cymerir camau o gwbl, a gymerir gan y corff cyhoeddus, o fewn tri mis i'r dyddiad y mae'n derbyn yr argymhelliad i ddechrau.

50. Os bydd angen i'r corff cyhoeddus ymgymryd â gweithgarwch pellach megis datblygu tystiolaeth neu gael arian ychwanegol er mwyn helpu i wneud ymateb ystyriol byddem yn ei annog drwy gytundeb ysgrifenedig gyda'r Comisiynydd, i amrywio'r dyddiad cau ar gyfer yr ymateb llawn.

## Atodiad A Cymryd ymagwedd integredig tuag at ddyletswyddau eraill

51. Mae'r Ddeddf yn darparu cyfleoedd i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gellir cyflawni dyletswyddau ategol eraill mewn modd mwy integredig. Darperir yr arweiniad hwn i helpu sefydliadau ystyried y cyfleoedd hyn yn unig, ond bydd angen i gyrff cyhoeddus ddal i fod yn hyderus bod eu dyletswyddau statudol priodol wedi cael eu bodloni'n llawn.

52. Gallai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth ategol am y berthynas rhwng dyletswyddau statudol penodol a'r Ddeddf.

### *Deddf Cydraddoldeb 2010*

53. Mae gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 'ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus' sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

    a) ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf honno;
    b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt; a
    c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

54. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i gyrff yn y sector cyhoeddus a restrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 [11]gymryd camau penodol er mwyn dangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hyn i Gymru yn cynnwys asesu effaith polisïau a gweithdrefnau ar gydraddoldeb (a elwir yn aml yn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb)

55. Mae cyrff cyhoeddus rhestredig yn cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) wrth benderfynu ar bolisïau ac arferion arfaethedig. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cyrff wrth bennu a chymryd camau i fodloni eu hamcanion llesiant ac i ddeall sut mae cydraddoldeb yn cefnogi'r gwaith o gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Gallai helpu hefyd i ddangos ymhellach sut mae corff cyhoeddus yn cyfrannu at 'Gymru sy'n fwy cyfartal'.

56. Fel rhan o ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru osod amcanion cydraddoldeb hefyd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ymgysylltu'n eang ynghylch y rhain ac agweddau eraill ar eu gwaith, a chasglu a dadansoddi data cydraddoldeb sy'n sylfaen i'w hasesiad o effaith ar gydraddoldeb a'u gwaith o osod amcanion. Er mwyn gwreiddio cydraddoldeb a chymryd ymagwedd fwy integredig, byddai o gymorth pe bai cyrff cyhoeddus yn ystyried sut mae eu hamcanion cydraddoldeb yn cefnogi'r gwaith o gyflawni eu hamcanion llesiant, ac integreiddio gyda hwy, a bydd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu i lywio'r gwaith hwn.

[11] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/made

57. Efallai y bydd corff cyhoeddus hefyd yn dymuno dwyn ynghyd y trefniadau adrodd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gyda'u gofynion adrodd o dan adran 13 y Ddeddf.

### *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)*

58. Mae'r CCUHP (UNCRC)[12] yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Dylai eu hawliau gael eu cydnabod gan bob un ohonom ac mae ganddynt gyfraniad gwerthfawr i'w wneud i'n cymunedau. Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad i'r Confensiwn yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[13] sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau . Mae Llywodraeth Cymru wedi crynhoi'r CCUHP o fewn Saith Nod Craidd[14] a ddylai fod yn sail i arferion gwaith unrhyw wasanaeth neu sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn genedlaethol ac yn lleol.

59. Mae Nod Craidd 5 (Erthygl 12 CCUHP) yn hyrwyddo hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan a bod â llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn hawl sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at yr holl hawliau eraill yn y Confensiwn. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt ac i gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am eu trefniadau. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd hon yw Adran 12 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[15]. Mae’r Cynllun Llesiant yn un o’r ffyrdd y gellir cyflawni’r ddyletswydd honno.

60. Fe'ch anogir yn gryf i ystyried sut y gallwch chi gefnogi plant a phobl ifanc i wireddu eu hawliau, a sut y gallant hwy gael eu cynnwys a chymryd rhan, wrth bennu eich amcanion llesiant a sut mae'r agweddau hyn yn cysylltu â'r nodau llesiant.

### *Tlodi*

61. Mae tlodi yn rhwystr mawr i bobl sy'n ceisio cyflawni canlyniadau bywyd gwell a gwella eu lefelau llesiant.

62. Mae gosod amcanion llesiant gan gorff cyhoeddus yn rhoi cyfle i gryfhau eu dull o drechu tlodi. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylai cyrff cyhoeddus ystyried y gwahanol agweddau ar dlodi, fel tlodi plant,, a sut y mae'r agweddau hyn yn cysylltu â'r nodau llesiant wrth nodi ei amcanion llesiant.

63. Lle ceir cysylltiadau rhwng amcanion llesiant a'r camau y bydd cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i ymdrin ag anghenion plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel, byddai o gymorth pe gallai'r rhain gael eu gwneud yn eglur.

### *Y Gymraeg*

[12] http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx
[13] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents
[14] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/sevencoreaims/?lang=cy
[15] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents

64. Wrth baratoi a chyflawni eu hamcanion llesiant rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol ag unrhyw ddyletswyddau a osodir arnynt o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011[16] ac unrhyw is-ddeddfwriaeth (hy Safonau'r Gymraeg) neu, hyd nes y daw'n orfodol iddynt gydymffurfio â dyletswyddau o'r fath, gyda'u cynlluniau Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn ymarferol, mae safonau yn debygol o gael eu gosod ar Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru o flaen cyrff eraill.

65. Dylai'r iaith Gymraeg gael ystyriaeth briodol fel rhan o osod a chyflawni amcanion llesiant gan adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru a'r nod llesiant cenedlaethol lle mae'r 'Gymraeg yn ffynnu'. Lle nodir canlyniadau penodol fel blaenoriaethau ee hyrwyddo neu amddiffyn yr iaith, neu sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog digonol yn cael eu darparu i ddiwallu angen lleol, dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol.

66. Bydd y safonau llunio polisi a bennir gan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015[17], yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff (os yw Comisiynydd y Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â hwy) ystyried yr iaith o'r cychwyn cyntaf wrth ddrafftio polisïau newydd neu ail-edrych ar bolisïau presennol . Yn achos awdurdodau lleol, bydd safonau hybu yn gosod dyletswydd ar awdurdodau (os yw'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy) i gynllunio'n strategol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac i gynyddu, neu o leiaf gynnal, nifer y siaradwyr yn yr ardal. Bydd y dyletswyddau hyn yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff i ystyried eu cyfraniad at sicrhau y gall yr iaith Gymraeg ffynnu yn y dyfodol.

### *Bioamrywiaeth (a dyletswydd gwytnwch ecosystemau)*

67. Mae bioamrywiaeth yn sail ein hecosystemau. Po fwyaf o fioamrywiaeth sydd gennym, y mwyaf cydnerth fydd ein hecosystemau, a fydd yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll y pwysau sy'n ein hwynebu, er enghraifft trwy effeithiau newid yn yr hinsawdd.

68. O dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006)[18] rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i warchod bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a chynyddu cydnerthedd ein hecosystemau fel ein bod yn cyflawni'r nodau llesiant i Gymru, bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru)[19] yn cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth newydd. Bydd y ddyletswydd estynedig hon hefyd yn amlygu bioamrywiaeth fel elfen hanfodol o gydnerthedd ecosystemau a'r bwriad yw drwy wneud hynny, y bydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor ein hecosystemau.

69. Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn dal i gael ei archwilio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n debygol y bydd y canllawiau ar gyfer Deddf

[16] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted
[17] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/contents/made
[18] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/16/contents
[19] http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12572

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r gwaith craffu ar Fil yr Amgylchedd ddod i ben.

70. Efallai y byddai corff cyhoeddus yn dymuno tynnu ar unrhyw wybodaeth a gasglwyd (megis y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth) wrth gyflawni'r ddyletswydd hon pan fyddant yn pennu eu hamcanion llesiant.